

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Ceinlys Jones, Penrhwyfya (Llansannan) sydd wedi torri ei choes ac yn Ysbyty Glan Clwyd ers canol yr wythnos. Cofiw'n hefyd am Amy Evans (Llanfair), Beryl Jones (Nantglyn), a Meirion Evans (Henllan) - y tri ohonyn nhw yn parhau yn yr ysbyty, ond mae'n dda cael adrodd fod Doreen Evans (Tanyfron) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Hyderwn eu bod oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac y byddant yn cael adferiad iechyd buan iawn. Parhawn i gofio yn ein gweddiâu hefyd am bawb arall o'r Fro sydd heb fod cystal eu hiechyd ac am y rhai hynny sy'n hiraethu am anwyliaid y Nadolig hwn. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.
- Dymunwn yn dda i Andras Iago a Heledd Timothy fydd yn priodi yn Llansannan dydd Llun, Rhagfyr 31ain. Gweddiwn y cânt ddiwrnod cofiadwy, a bendithion lu i'r dyfodol.

RHAGFYR 30ain

Beth am ymuno â ni yn yr Oedfa i'r Fro yng Nghapel Peniel am 10.00 gyda Rhodri yn pregethu? Hon fydd yr unig oedfa bregethu fydd yn cael ei chynnal yn y Fro ar y Sul arbennig hwn. Os oes modd, wnewch chi rannu ceir, os gwelwch yn dda?

RHIFYN NESAF

***Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar Ionawr 6ed. ***

I ddod

- **Cymdeithas y Beibl** - Cynhelir cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn Festri Llansannan nos Iau, Ionawr 10fed am 7.30 yng nghwmni Rhodri Glyn, gyda phaned i ddilyn.
- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fawrth, Ionawr 15fed am 7.00 gyda'r Parch. Nan Powell Davies yn arwain yr oedfa.
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled yng Ngholeg y Bala**, Ionawr 25ain-27ain. Mwy o fanylion yn y flwyddyn newydd.
- **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan nos Fercher, Chwefror 6ed am 8.00.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng 1af-5ed Ebrill 2013. Cewch ragor o fanylion ar y wefan www.llanw.org.

Dalier Sylw – RHIFYN NESAF – Ionawr 6ed, 2013

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau i:


Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher, Ionawr 2il fan bellaf.

Nadolig
Llawen
i chi
i gyd!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Rhagfyr 2012

www.eglwysibroaled.com
www.dawncymru.org / www.llanw.org



Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch ar ein Sul olaf gyda'n gilydd cyn y Nadolig.

Tybed gawsoch chi gip ar y llun annisgwyl hwnnw yn y *Daily Post* yr wythnos hon? Llun wedi ei gyhoeddi gan NASA ydoedd, diolch i un o'u lloerennau, ac ynddo dangoswyd Cymru yng nghanol nos, gyda holl oleuadau'r pentrefi, trefi a dinasoedd i'w gweld yn glir - hyd yn oed goleuadau'r melinau gwynt uwchlaw arfordir gogledd Cymru! Yn y gwasanaeth teuluol yn Llanefydd y Sul diwethaf, cawsom ein hatgoffa bod tywyllwch yn cuddio'r gwirionedd oddi wrthym ac yn arwain at broblemau a phoen yn aml. Heb olau, mae rhywun yn tybio nad oes unrhyw beth o'i flaen, ac yn eithaf tebygol o gerdded i mewn i bethau os nad yw'n ofalus! Ond wedi cael goleuni, gwelir pethau fel y maent mewn gwirionedd. Pan mae Duw, felly, yn dod i'r ddaear mewn cnawd, beth mae'n ei olygu pan ddywed ei fod yn oleuni'r byd? (Ioan 8:12) Mae'n datgan iddo ddod i ddiddymu'r tywyllwch am byth i'r rhai sy'n dod ato a chynnig goleuni'r bywyd iddynt. Hynny yw, yn fwy na'n goleuadau ni sydd ond yn dangos problemau ac anawsterau o'n blaen, mae Iesu wedi dod i ddileu tywyllwch, drygioni, poen a marwolaeth am byth trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad Ef ei hun. Dangosodd i ni'r ffordd i'r nef, a chyflawni'r cwbl oedd angen ei wneud er mwyn i ni gael ein tywys ar hyd y ffordd fendigedig honno trwy ffydd. Mae wedi dod â daioni a goleuni achubiaeth Duw atom, a'i wneud yn realiti byw trwy ddod yn un ohonom, a'n gwahodd ninnau i'w brofi drosom ein hunain. Pwy fyddai'n meddwl fod genedigaeth babi bach ym Methlehem yn dod â'r fath drysor i bobl fel ni? Beth am ddod at y goleuni y Nadolig hwn wrth roi ein bywyd i'r Iesu, a'i foli am yr hyn a wnaeth a'r hyn ydyw i ni heddiw? Fel y dywedodd Morgan Rhys:

*Dyma y newyddion hyfryd
Draethwyd gan angylion Duw –
Fod y Ceidwad wedi ei eni,
I golledig ddynol ryw:
Ffyddlon gyfaill!
Bechaduriaid, molwn Ef.*

Nadolig Llawen a bendithiol i bawb ohonoch a'ch teuluoedd, a gweddiwn y bydd presenoldeb a chariad y Tad, Mab a'r Ysbryd Glân yn ein rhyfeddu, ein cysuro a'n cryfhau beth bynnag fo'n hamgylchiadau dros yr ŵyl.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.
- Mawrth lau • **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel y Groes am 9.30.
- **Taith gerdded** yn ardal Cefn Meiriadog bore lau, Rhagfyr 27ain. Pawb i gyfarfod ym maes parcio Capel Cefn Meiriadog am 10.30. Dewch â chinio hefo chi – bydd paned ar gael yn y Ffestri.
- Gwener • **Swper Adnabod** yn Ffestri Llansannan am 7.30. Cysylltwch â Rhodri neu Mair erbyn dydd Llun, Rhagfyr 24ain i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa i'r Fro** yng Nghapel Peniel am 10.00 gyda Rhodri yn pregethu.

2013

- Ionawr 5^{ed} • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Ionawr 6^{ed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned i ddilyn.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig teuluol yn Neuadd Goffa Llanfair am 11.00, a bydd Parti Nadolig yn dilyn.

2013

- Ionawr 6^{ed} Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghewn Berain am 10.30 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn.
- Bydd Gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd.
- Yna am 6.30, bydd Gwasanaeth Carolau'r Plwyf yn Eglwys Llanefydd.

2013

- Ionawr 4^{yd} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghewn Berain am 12.00.
- Ionawr 6^{ed} Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Ffestri ac ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gydag Aneurin yn rhoi anerchiad, a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Ffestri.
- Mawrth Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Bethania am 7.00 bore Nadolig.

2013

- Ionawr 6^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig (Nantglyn a Thanyfron) yng Nghapel Nantglyn am 2.00.

2013

- Ionawr 6^{ed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00, ac yn ystod yr oedfa, fe ofynnir barn aelodau Nantglyn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn Saron **am 10.30** a bydd cyfeillion Capel Peniel hefyd yn ymuno yn y gwasanaeth. Bydd paned a mins pei yn dilyn y gwasanaeth a Sion Corn yn ymweld. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

2013

- Ionawr 6^{ed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Ffestri. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00.

2013

- Ionawr 6^{ed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn y Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau